

**Gwobr Ansawdd Genedlaethol
Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru**



**Welsh Network of Healthy School Schemes
National Quality Award**

**Adroddiad Gwobr Ansawdd Genedlaethol
ar yr ymweliad â Canolfan Addysgol y Bont**

Dyddiad: Ionawr 16&17 2018

Cyflwyniad

Llongyfarchiadau ar eich llwyddiant i dderbyn y Wobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru. Yr ydym yn falch iawn i gadarnhau bod Canolfan Addysg y Bont yn cyfarfod â'r holl feini prawf ar gyfer y Wobr Ansawdd Genedlaethol. Mae'r meini prawf hyn wedi eu gosod allan yn erbyn 7 testun iechyd isod.

Mae ysgolion sydd yn llwyddo i dderbyn y Wobr Ansawdd Genedlaethol yn gweithredu mentrau sydd yn ymwneud â lles i'r safon uchaf. Yr yr adroddiad hwn yr ydym yn nodi cryfderau nodedig eich ysgol wrth i chi fynd ati i hyrwyddo lles pawb sydd yn ymwneud â'r ysgol. Mae'r adroddiad hefyd yn adnabod meysydd sydd angen ystyriaeth arnoch er mwyn datblygu ymhellach.

Gobeithiwn bod yr adroddiad yn rhoi hwb i chi ac yn cynnig arweiniad defnyddiol fydd yn galluogi disgyblion a staff Canolfan Addysg y Bont i barhau ac i ddatblygu rhai o'r mentrau rhagorol mae'r ysgol eisoes yn ei gweithredu fel eu bod hyd yn oed yn cael eu sefydlu ymhellach ym mywyd yr ysgol.

Meini Prawf y Wobr Ansawdd Genedlaethol

1. Bwyd a ffitrwydd (maeth a gweithgareddau corfforol)
2. Iechyd a lles Meddyliol ac Emosiynol gan gynnwys lles y staff
3. Datblygu personol a chydberthynas gan gynnwys addysg rhyw a pherthnasoedd
4. Defnyddio a chamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys alcohol, ysmegu a chyffuriau (cyfreithiol, anghyfreithiol a phresgripsiwn)
5. Amgylchedd gan gynnwys eco-fentrau a gwelliannau i'r ysgol a'r amgylchedd ehangach
6. Diogelwch gan gynnwys agweddau amrywiol fel amddiffyn plant, diogelwch yr haul, diogelwch y rhyngwrwyd a chymorth cyntaf
7. Hylendid gan gynnwys ar draws yr ysgol a thu hwnt

Am ragor o wybodaeth ar feini prawf GAG, ymwelwch â

<http://gov.wales/topics/health/improvement/schools/?skip=1&lang=cy>

Mae'r meini prawf yn cael eu cefnogi gan nifer o egwyddorion sylfaenol sef;

- Pwysigrwydd cyfranogiad y disgyblion yng nghraidd bywyd ysgol sydd yn effeithio ar les plant a phobl ifanc e.e. dysgu ac addysgu, amgylchedd, gofal bugeiliol
- Pwysigrwydd yr ymrwymiad a'r ddealltwriaeth sydd gan holl gymuned yr ysgol
- Bod agweddau iach tuag at iechyd yn bodoli
- Cyfiawnder Ecwiti
- Y cyswllt â rhaglenni a pholisiau cenedlaethol a lleol

J Elwyn Williams

Crynodeb yr ymweliad

Symudodd Canolfan Addysg y Bont i'w leoliad presennol yn Llangefni yn ystod 2014 ac mae'n cynnig addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 19 oed. Mae gan y disgyblion sydd yn mynychu ystod eang o anghenion dysgu, yn cynnwys anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anhwylderau'r sbectrwm awtistig sydd yn golygu bod rhai disgyblion angen cefnogaeth un i un gan yr ysgol. Trefnir yr ysgol yn ardaloedd gwahanol gyda pedwar dosbarth yn yr adran Gynradd, grwp Cyfnod Allweddol 3, Grwp 14-19 a Grwp Gofal Arbenigol. Mae rhwng 5 a 10 o ddisgyblion ym mhob grwp gyda athro/awes a dwy/dau gymhorthydd addysgu. Ysgol ddyddiol ydyw gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn byw ar Ynys Môn ac yn cael eu cludo yno gyda thacsi. Pleser oedd gweld yr ymateb ar wynebau'r disgyblion wrth gyrraedd yr ysgol yn y bore ac wrth gael eu hebrwng i'w ardaloedd penodedig gan aelodau staff.

Nod yr ysgol yw cynnig yr addysg orau ac mwyaf addas er mwyn cyfarfod ag anghenion pob disgybl unigol yn unol â'i oed, gallu a'i ddi-ddordebau mewn lleoliad ddwyieithog sydd yn parchu eu barn, eu dymuniadau a'u dyhaeadau mewn amgylchedd ddiogel.

Cartrefir Caolfan Addysg y Bont mewn adeilad newydd ardderchog ac mae'r amgylchedd ysgol, tu mewn a thu allan yn ddeniadol, glân a threfnus sydd yn cynnig sail ddysgu ardderchog a symbylus ar gyfer disgyblion o bob oedran. Mae gan yr ysgol offer eithriadol gyda dodrefn arbenigol o ansawdd uchel iawn a theclynnau codi disgyblion sydd yn eu galluogi i gael mynediad llawn i bob agwedd o'r cwricwlwm. Mynegwyd pryder yn ystod ein ymweliad mewn perthynas â'r lleihad yng nghyllideb yr ysgol sydd yn cynnig sialensau arwyddocaol i gynnal y ddarpariaeth ragorol bresennol i ddisgyblion yr ysgol.

Mae trefniadau cyfathrebu da iawn yn yr ysgol sydd yn cynnwys cyfarfod cychwynnol boreuol gan yr Uwch Dim Rheoli a chyfarfod staff i ddilyn. Mae taclau radio gan aelodau o staff, system teliffon mewnol rhwng pob dosbarth a threfn uchelseinydd ysgol gyfan yn sicrhau diogelwch disgyblion a staff gydol yr amser. Mae strwythur rheolaeth a staffio'r ysgol yn sicrhau ymrwymiad tim gyda rolau clir gan aelodau staff. Llwyddir i fanteisio i'r eithaf ar gefnogaeth nifer o asiantaethau allanol ar gyfer agweddau gwahanol o waith yr ysgol ac mae hyn yn sicrhau bod anghenion y disgyblion yn cael eu cwrdd yn dda.

Lleolir Canolfan Addysg y Bont drws nesaf i'r ganolfan hamdden a'r ysgol uwchradd ac mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn medru cael mynediad i weithgareddau amrywiol iawn ac mae nifer o weithgareddau ar y cyd ardderchog yn digwydd rhyngddynt. Mae'r ysgol yn defnyddio cynllun gwobrwyo ASDAN (Award Scheme Development and Accreditation Network) sydd yn cynnig rhaglenni hyblyg i ennill cymwysterau wrth ddatblygu medrau dysgu, gwaith a bywyd. Mae trefniadau cymedroli yn rhan bwysig o'r cyrsiau hyn i gyd. Gwelsom nifer o enghreifftiau penigamp yn ystod ein ymweliad o'r ffordd mae llais y disgybl wedi cael ystyriaeth. Mabwysiadwyd nifer o systemau gwobrau dosbarth fel Ser y Dosbarth ac mae'r gwobrwyo ASDAN diwedd blwyddyn yn cynorthwyo'r disgyblion i deimlo synnwyr o lwyddiant.

Uchafbwyntiau'r ymweliad

Bwyd a ffitrwydd

Mae'r poilisi ar Fwyd a Ffitrwydd yn dilyn canllawiau sirol a defnyddiodd y disgyblion eu hunain fwrdd gwyn rhyngweithiol i greu pecyn bwyd iach. Dylunwyd poster ganddynt hefyd sydd wedi ei arddangos ar wal y dosbarth. Derbyniodd yr ysgol lefel 5 gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Mae'r ysgol yn derbyn cefnogaeth gan asiantaethau allanol niferus, sydd yn cynnwys swyddog Mabolgampau'r Anabl sydd yn cydweithio â'r ysgol wrth ddatblygu amrediad o gyfleoedd a gweithgareddau. Mae Arweinwyr Mabolgampau yr ysgol uwchradd yn cynorthwyo yn hyn o beth hefyd. Mae Ymddiriedolaeth John Egging yn gweithio efo'r ysgol gyda'r nod o ysbrydoli pobl ifanc drwy waith tim ac arweinyddiaeth er mwyn eu cynorthwyo i orchfygu gofid, i adnabod eu cryfderau a gweithio tuag at eu uchelgais. Dyma'r tro cyntaf i'r Ymddiriedolaeth weithio mewn Ysgol Arbennig yn y Deyrnas Gyfunol. Fel canlyniad, mae amrediad eang iawn o weithgareddau ar gael i ddisgyblion gyda nifer yn cymryd rhan yng Nghwobr Dug Caeredin, cyfeiriannu, gweithgareddau wal ddringo a'r Bencampwriaeth Gymnasteg i'r Anabl. Trefnwyd hefyd gemau Olympaidd 'Rio y Bont'

Iechyd a lles Meddyliol ac Emosiynol gan gynnwys lles y staff

Mae hwn yn faes sy'n rhan annatod o ethos gyfan yr ysgol. Mae ganddo flaenoriaeth uchel ym mhob agwedd o waith yr ysgol ac ystyrir lles disgyblion a staff o bob lefel ar bob achlysur. Mae sesiynau amser cylch / sesiynau meddylfryd wedi eu hamserlennu'n dda, tu mewn a thu allan, er mwyn hybu iechyd meddwl ac emosiynol.

Mae hefyd enghreifftiau nodedig o wrando ar gerddoriaeth a'r defnydd o ystafelloedd synhwyrdd yn yr ysgol ac mae hyn yn gryfder mawr yr ysgol. Mae'r athro cerdd wedi ei gydnabod yn genedlaethol am ei gyfraniad yn y maes hwn. Mae hefyd yn gyfrifol am fenter Ysgol Arweiniol Creadigol drwy gynllun gan y Cyngor Celfyddydau, gyda'r amcan o ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion trwy ddefnyddio'u dychymyg a'u hyder trwy weithgareddau drama a datrys problemau. Un enghraifft nodedig o'r gwaith hwn yw creu 'Hafan y Bont', sef yr ardal gardd tu allan, lle manteiswyd ar gyfraniadau gwerthfawr gan asiantaethau allanol fel 'Elfennau Gwylt' (Wild Elements) yn fuddiol iawn gan yr ysgol er mwyn hyrwyddo'r agwedd hon.

Un nodwedd o'r gwaith hwn yw dylunio ac adeiladu cadair eisteddfod wych sydd wedi'i arddangos yn falch yng nghyntedd yr ysgol a bydd hyn yn cyfrannu yn y dyfodol i waith ar y Siarter Iaith Gymraeg yn yr ysgol. Cyfrannodd y disgyblion yn llawn wrth gynllunio a pharatoi y gwaith hwn. Mae llawer o enghreifftiau o waith celf y disgyblion, ar ffurf 2D a 3D o safon gwirioneddol eithriadol yn cael ei arddangos trwy'r ysgol ac mae'r holl ddisgyblion yn falch iawn o'u cyflawniadau.

Datblygu personol a chydberthynas

Mae'r ysgol yn defnyddio rhaglen Jiwsy sy'n wasanaeth addysg a hyfforddiant iechyd rhywiol y Cymdeithas Cynllunio Teulu (FPA) a ariennir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB). Mae Jiwsy yn chwarae ar y gair 'juicy' a dewiswyd yr enw mewn ymgynghoriad â

grŵp o bobl ifanc. Mae Jiwsy yn darparu addysg rhyw a pherthnasoedd (ARhaPh) i grwpiau o bobl ifanc sydd agored i niwed mewn lleoliadau addysg a chymunedol a rhaglenni hyfforddi ARhaPh ledled Gogledd Cymru. Mae Jiwsy wedi darparu hyfforddiant i aelodau staff yr ysgol a hefyd yn cefnogi cynnal sesiynau ar faterion megis rhyw a pherthnasoedd diogel ac ymarferol gyda'r disgyblion. Mae aelodau'r staff hefyd yn rhan o rwydwaith Jiwsy ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n cynnig cymorth rheolaidd trwy gyfarfodydd, seminarau a diweddariadau e-bost i ymarferwyr sy'n darparu ARhPh. Mae hyn yn sicrhau bod pob disgybl yn yr ysgol yn derbyn rhaglen ARhPh cynhwysfawr sy'n briodol i'w anghenion, gydag aelodau o staff yn cael hyfforddiant priodol, mynediad at adnoddau dwyieithog a chymorth gan y Gymdeithas Cynllunio Teulu.

Mae'r ysgol hefyd yn trefnu ymweliad â siop fabanod leol, meithrinfa leol a chyfarfod gyda bydwraig sy'n gwella eu profiadau yn yr ysgol

Diogelwch

Rhoddir y flaenoriaeth uchaf i ddiogelwch yn yr ysgol ac mae'n tanlinellu popeth y mae'r ysgol yn gobeithio ei gyflawni mewn perthynas â phob rhanddeiliad. Mae'r ysgol yn ystyried diogelwch yn ei ystyr ehangaf ac mae'n cynnwys diogelwch corfforol, meddyliol ac emosiynol, yn ogystal ag agweddau eraill megis diogelwch haul, amddiffyn plant, diogelwch ar y rhynggrwyd ar gyfer disgyblion yn ogystal â pholisiau codi, gweithio yn unigol a gofal personol ar gyfer aelodau'r staff. Mae asesiadau risg cynhwysfawr ar waith ar gyfer sawl agwedd o waith yr ysgol, ar y safle ac i ffwrdd o'r safle yn ystod y gweithgareddau allgyrsiol niferus a wneir gan ddisgyblion.

Mae'r systemau mynediad drws ar gyfer y drysau allanol a mewnol yn ogystal â'r system CCC sydd ar waith yn yr ysgol hefyd yn cyfrannu'n dda iawn yn hyn o beth. Yn ogystal mae gan y mwyafrif o ddrysau'r ystafelloedd ddosbarth ddwy handlen gyda'r un uchaf wedi'i osod allan o gyrraedd y disgyblion. Mae'r terfynnau uchel tu allan hefyd yn hynod o gadarn ac o safon dda iawn ac mae gan bob dosbarth ardal gegin sâff gyda mynediad drwy gât yn unig a lle mae modd addasu uchder yr offer cegin fel y stôf a'r sinc sy'n sicrhau diogelwch disgyblion. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ysgol.

Mae'r ymweliadau y mae'r ysgol yn eu trefnu i Dangerpoint yn pwysleisio negeseuon yr ysgol am ddiogelwch, yn enwedig felly wrth ystyried ethos yr ysgol o baratoi disgyblion ar gyfer bywyd bob dydd.

Defnyddio a chamddefnyddio sylweddau.

Mae asiantaethau amrywiol yn cefnogi'r ysgol gydag aelodau o staff yn ymuno yn y sesiynau pan fydd asiantaethau allanol yn ymweld â'r ysgol ac mae'r cynnwys yn cael eu hintegreiddio'n llawn yn rhaglen yr ysgol. Mae'r Gwasanaeth Ieuencid wedi darparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth alcohol gyda disgyblion. Yn ystod ymweliad â Dangerpoint eglurwyd am beryglon cyffuriau a'u heffeithiau, yn ogystal â chyffuriau newydd sy'n dod i'r amlwg dros y cownter. Manteiswyd ar y cyfle hefyd i ddysgu staff a disgyblion am beryglon sylweddau gwenwynig yn y cartref fel tyrpant gan bwysleisio na ddylid eu rhoi mewn hen boteli diod yn ogystal â llawer o wybodaeth arall.

Mae aelodau'r staff yn aml yn ymchwilio, yn casglu ac yn addasu gwybodaeth wrth gynllunio gweithgareddau ar gyfer y disgyblion. Er enghraifft mewn perthynas â gwybodaeth newydd am ddiodydd ynni ar y farchnad a'u heffeithiau. Mae Liam Watson Training, asiantaeth hyfforddi

annibynnol, wedi darparu hyfforddiant o ansawdd uchel ar ystod o faterion cyffuriau cyfredol ar gyfer aelodau staff yr ysgol.

Mae Swyddog Cyswllt yr Heddlu yn rhoi llawer iawn o gefnogaeth i'r ysgol gyda sesiynau yn cael eu dilyn gan ddefnyddio gwefan School Beat a byddant yn ymateb i faterion yn yr ysgol pan fo angen.

Amgylchedd

Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r ystafelloedd triniaeth a chymorth arbenigol yn fawr o ran maint gyda offer a dodrefn arbenigol o ansawdd rhagorol er mwyn cefnogi disgyblion ag anghenion addysgol a chorfforol penodol. Mae gan yr ysgol nifer o ystafelloedd synhwyrdd arbenigol gwych yn ogystal â phwll hydrotherapi, sy'n cyfrannu'n dda iawn at anghenion unigol y disgyblion. O fewn yr ysgol, mae ystafelloedd unigol yn cael eu dyrannu i feysydd penodol o'r cwricwlwm yn ôl oedran, megis cerddoriaeth, iechyd a harddwch, gyrfaedd ac ati.

Mae'r holl ardal y tu allan wedi'i ddylunio gyda diogelwch disgyblion mewn golwg ac mae'n gwbl addas ar gyfer chwarae'n iach. Mae'r arwynebau i gyd yn ddeunydd meddal pwrpasol gydag ystod dda iawn o offer sefydlog, megis y gampfa tu allan a gwahanol siglenni. Mae gwaith rhagorol yr eco-bwyllgor dan arweiniad aelod brwdfrydig iawn o staff wedi arwain at lawer o fentrau ailgylchu, gyda'r disgyblion yn ymwybodol iawn o'r angen i warchod trydan a dŵr. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn gweithio tuag at yr Wobr Platinwm Eco-Sgolion.

Mae'r disgyblion yn trefnu Siop Elusennol flynyddol yng Nghaergybi lle rhoddir rhoddion fel ddillad, llyfrau, DVDau, gemau ac ati er mwyn eu gwerthu dros y cownter yn y siop. Mae hyn yn helpu gyda profiadau sgiliau bywyd a hefyd yn llwyddiannus wrth godi arian ar gyfer yr ysgol, er enghraifft wrth brynu dodrefn ar gyfer yr Ystafell Sgiliau Bywyd ar y llawr cyntaf. Caiff unrhyw eitemau sydd heb eu gwerthu eu hailgylchu naill ai trwy fenter Cash4Clothes neu yng nghanolfan ailgylchu'r Cyngor sy'n cefnogi ymwybyddiaeth entrepreneuriaidd y disgyblion.

Hylendid

Mae gan yr ysgol bolisi Hylendid manwl iawn sy'n sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol. Mae'r holl ddsbarthiadau'n cymryd rhan yn y rhaglen 'Cynllun Gwên' ac mae oergell neu ardal oer ar gael i ddisgyblion storio eu pecynnau cinio. Mae'r holl staff yn gwisgo menig finyl i'w diogelu wrth ofalu am anghenion gofal personol disgyblion sydd wedyn yn cael eu gwaredu mewn biniau hylendid cwmni Cannon.

Mae gan yr ysgol ystafell ddefnyddiol Sgiliau Bywyd fel adnodd ac mae'n efelychu'r amgylchedd a geir gartref. Mae hyn yn sicrhau bod gan bob disgybl fynediad i ddatblygu ymhellach ac ymarfer eu medrau byw'n annibynnol. Defnyddir cefnogaeth weithredol gyda disgyblion unigol i ddatblygu arferion cartref mewn gwahanol dasgau byw'n annibynnol yn yr ystafell hon. O ganlyniad, mae disgyblion yn dysgu am ystod o faterion hylendid gan gynnwys diogelwch yn y gegin, pwysigrwydd glanhau a defnyddio'r cynhyrchion cywir. Maent hefyd yn cael y cyfle i ddysgu sgiliau eraill fel sut i olchi dillad, tacluso a glanhau ystafell wely ac ystafell fyw. Mae hyn yn eu paratoi ar gyfer bywyd pan fyddant yn gadael yr ysgol ac yn hanfodol bwysig yn eu datblygiad.

Meysydd sydd angen ystyriaeth bellach

- Mae gan yr ysgol raglen Addysg Rhyw a Pherthnasoedd ardderchog ar gyfer disgyblion a defnyddir adnoddau Jiwsî. Er bod gan yr ysgol bolisi Addysg Rhyw, hoffwn weld hwn yn cael ei ddatblygu fel bod mwy o fanylion ar sut mae Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn cael ei gyflwyno yn yr ysgol, yr adnoddau a ddefnyddir a rôl aelodau staff ac asiantaethau eraill. Byddai manylion am bolisiau cenedlaethol ac arweiniad sydd yn dylanwadu ar polisi'r ysgol yn ychwanegiad defnyddiol hefyd.
- Felly hefyd mewn perthynas â rhaglen ardderchog Defnyddio a Chamddefnyddio Sylweddau yr ysgol. Mae hefyd angen datbygu polisi yn y maes yma. Ymhlith y manylion y dylid eu ychwanegu mae angen arweiniad cliriach ac mwy manwl ar reolaeth unrhyw achos o gam ddefnyddio sylweddau yn yr ysgol a'r gefnogaeth sydd ar gael. Fel uchod dylid cynnwys gwybodaeth am sut dylid cyflwyno'r rhaglen, yr adnoddau a ddefnyddir a rôl aelodau staff ac asiantaethau eraill. Byddai manylion am bolisiau cenedlaethol sydd yn dylanwadu ar polisi'r ysgol yn ychwanegiad defnyddiol hefyd.

Adborth i ddisgyblion

Annwyl Ddisgyblion

Diolch i chi gyd am fy nghyfarfod yn ystod fy ymweliad diweddar â Chanolfan y Bont. Bu i chi roi croeso mawr i mi, yn enwedig y rhai ohonoch ddaru ddangos yr ysgol. Fel yr ydych yn ymwybodol, yr oeddwn ar ymweliad i asesu Canolfan y Bont ar gyfer y Wobr Ansawdd Genedlaethol fel Ysgol Iach. Bu i mi fwynhau'n fawr mynd o gwmpas yr ysgol yn enwedig yr ardal tu allan lle bu i mi weld popeth yr ydych yn ei wneud i wella amgylchedd yr ysgol. Hoffais yn fawr clywed am yr holl weithgareddau a'r ymweliadau amrywiol yr ydych yn cymryd rhan ynddynt. Hoffais hefyd drafod llawer o agweddau yn ymwneud â iechyd gyda chi ac fe welais pa mor awyddys oeddech i egluro am y gweithgareddau o fewn yr ysgol. Yr oeddech bob amser yn gwrtais a brwdfrydig wrth siarad gyda mi am yr ysgol yn ystod fy ymweliad.

Hoffwn fynegi fy nymuniadau gorau i chi yn y dyfodol a diolch i bawb y bu i mi gyfarfod yn ystod fy ymweliad. Mae gennych ysgol dda iawn sydd yn sicrhau eich bod yn deall pwysigrwydd cadw'n iach. Bydd hyn yn bwysig iawn wrth i chi ddatblygu i fod yn oedolion cyfrifol yn y dyfodol.

Hwyl Fawr!

J Elwyn Williams

